Cyfleoedd Gwirfoddoli sydd wedi cyrraedd y swyddfa yn ddiweddar (Medi 2012)

1. **HYRWYDDO SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON (BHF)**. Mae yna grwpiau gwirfoddol yn weithredol yn Nhywyn ac Aberdyfi, Y Bala, Dolgellau a Chaernarfon. Maent yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu yn lleol – drwy hyrwyddo'r mudiad a chodi arian.
2. **CYMUNEDAU 2.0 -** helpu cymunedau a mentrau bach i wneud y gorau o'r we drwy hwyluso defnydd o dechnoleg a datblygu hyder. Mae angen Hyrwyddwyr Digidol i redeg cyrsiau cyfrifiadurol dechreuol a sesiynau galw heibio.
3. **BIG ISSUE CYMRU** - yn helpu pobl ddigartref i ennill bywoliaeth drwy werthu cylchgronau. Angen gwirfoddolwyr i helpu'r gwerthwyr drwy greu posteri gwybodaeth a chyflwyno'r unigolion i'r gymdeithas a chodi ymwybyddiaeth o waith Big Issue yn grymuso pobl ddigartref.
4. **HAFAL - TŶ ADFERIAD, PORTHMADOG -** mae Hafal yn cefnogi a grymuso pobl gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol. Mae angen gwirfoddolwyr dan hyfforddiant i helpu yn y ganolfan newydd ym Mhorthmadog drwy gysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth, cymryd rhan mewn gweithgareddau a helpu gyda gwaith tŷ arferol.
5. **SIOP TENOVUS -** mae Tenovus yn elusen sydd yn dod a gofal, triniaeth, cefnogaeth ac ymchwil i galon y gymuned. Mae gwir angen gwirfoddolwyr i helpu gyda phob agwedd o redeg y siop yng Nghaernarfon.
6. **GISDA -** Yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc a theuluoedd digartref. Mae angen gwirfoddolwr i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r elusen ac i edrych ar ffyrdd o godi arian. Byddai profiad o weithio gyda phobl ifanc yn ddymunol.
7. **AGE CYMRU GWYNEDD A MÔN -** Tri chyfle **:**
    - Cynorthwyydd yng Nghaffi sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol, Caernarfon
    - Cynorthwyydd yng Nghaffi Hafan ger arosfa bws ym Mangor.
    - Helpu gyda phob agwedd o redeg **SIOP ELUSEN AGE CYMRU** sydd wedi agor ym Mhorthmadog yn ddiweddar.
8. **RHEILFFORDD FAIRBOURNE -** Mae angen **g**wirfoddolwyr i gadw'r rheilffordd hanesyddol yma i fynd. Help gydag amrywiaeth o dasgau yn cynnwys codi arian, caffi, peirianneg, gweinyddu, gwaith ymarferol allan yn yr awyr agored.
9. **GRŴP MYNEDIAD MEIRIONNYDD ACCESS GROUP -** Gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau i bobl anabl ym Meirionnydd. Mae'r grŵp angen ysgrifennydd i drefnu cyfarfodydd - sydd fel rheol yn cael eu cynnal 2 i 3 gwaith y flwyddyn yng Nghanolfan Hamdden, Glan Wnion Dolgellau. Sgiliau cyfrifiadurol eu hangen.
10. **CYMYDMAEN CYF – CANOLFAN FENTER GONGL MEINCIAU BOTWNNOG -** Cwmni Cymunedol sy'n gweithredu er lles cymunedau Pen Llŷn. Maent angen cymorth i redeg 'Siop Cynhyrchwyr Llŷn 100%' drwy gyfarch ymwelwyr , defnyddio til a llenwi silffoedd.
11. **CEGIN PEBLIG -** Yn paratoi bwyd fforddiadwy a hyfforddiant i bobl ifanc. Mae angen cogydd cynorthwyol i baratoi bwyd a choginio bwyd heb oruchwyliaeth. Angen sgiliau coginio, profiad o waith arlwyo a sgiliau cyfathrebu da.
12. **SEFYDLIAD CENEDLAETHOL COASTWACTH -** yn gwella diogelwch a bywyd ar arfordir y DU ar hyd yr arfordir, glannau'r môr a llwybrau arfordirol. Mae angen Gwylwyr, cymorth gweinyddol a help i godi arian. Hyfforddiant llawn ar gael.
13. **CYFARFOD A GWRANDO -** Allech chi wneud gwir wahaniaeth i bobl hŷn (50+) sy'n drwm eu clyw ac sy'n unig yn eu cymunedau? Hoffech chi gyfarfod pobl debyg i chi a chael sgwrs dros banad? Os felly, dyma gyfle i chi wirfoddoli gyda "Hear to Meet".
14. **CLWB ANTUR DWYFOR -** yn chwilio am wirfoddolwr dwyieithog i ddiweddaru a chadw cofrestr aelodaeth yn ogystal â derbyn arian aelodau yn ystod y sesiynau dringo wythnosol a gynhelir yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor Pwllheli.
15. **BALCHDER GOGLEDD CYMRU 2012 -** Stiwardio a Threfnu Digwyddiad - Cynhelir digwyddiad cyntaf Balchder Gogledd Cymru 2012 o'r 5ed - 7fed o Hydref 2012 yn Neuadd Hendre, Bangor. Mae amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli, gan gynnwys stiwardio yn y gwersyll a maes parcio. Cymrwch ran!
16. **CHILDLINE/NSPCC –** Gwirfoddolwr gyda Rhgalen Gwasanaeth Ysgolion i roi cyflwyniadau er mwyn helpu plant i ddeall cam-drin yn well (gan gynnwys bwlio).
17. **SNAP Cymru –** yn darparu cyngor a chynhaliaeth i deuluoedd a phlant gydag anawsterau dysgu ychwanegol. Mae angen gwirfoddolwr i dderbyn ymholiadau, rhoi cyngor cychwynnol a chymryd cyfeiriadau.
18. **Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru** – angen yrrwyr gwirfoddol a phobl i helpu i godi arian i'r Gymdeithas.
19. **Hamdden Harlech ac Ardudwy** – angen cymorth gyda hyfforddi a dysgu. Hefyd mae angen help yn y caffi.
20. **Canolfan Tan y Maen, Blaenau Ffestiniog** - angen cymorth yn y sesiynau 'Galw Heibio'.

I gael manylion pellach am unrhyw un o'r cyfleoedd uchod, cysylltwch â
Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd 01286 672626 / 01341 422575
www.mantellgwynedd.com